Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27: Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Rhagfyr 2025

## 1. Y gyllideb ddrafft

**1.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft amlinellol ar 14 Hydref 2025.[1] Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft fanwl ar 3 Tachwedd 2025.[2] Cyn ei chyhoeddi, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wrth y Senedd fod y Cabinet yn cynllunio cyllideb "busnes fel arfer". Yn ymarferol mae hyn wedi golygu ailddatgan dyraniadau cyllideb y Prif Grŵp Gwariant ("MEG") 2025-26 yn unol â chwyddiant.

**2.** Mae'r Gyllideb Ddrafft Amlinellol yn nodi bod cynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso ar gyfer pob MEG fel y bydd "pob rhan o Lywodraeth Cymru yn dechrau 2026-27 gydag o leiaf yr un lefel o gyllid mewn termau real â'u llinell sylfaen ddiwygiedig eleni (2025-26)." Darperir cynnydd o 2.2 y cant ar gyfer elfennau cyflog y sector cyhoeddus ym mhob MEG. Darperir cynnydd o 2 y cant ar gyfer "adnoddau cyllidol nad ydynt yn gyflogau, cyfalaf cyffredinol, ac ar gyfer cyfalaf Trafodiadau Ariannol."[3]

[1] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27, Hydref 2025
[2] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025
[3] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27, Hydref 2025

**3.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r mwyafrif helaeth o'r cyllid sydd ar gael (tua 98 y cant), ond mae £380 miliwn o hyd mewn cronfeydd wrth gefn y gellid eu dyrannu. Mae hyn yn rhannu'n £231 miliwn o adnoddau cyllidol, £136 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £13 miliwn o gyfalaf trafodion ariannol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi bod yn glir bod hyn yn darparu capasiti ar gyfer trafodaethau pellach gyda phleidiau gwleidyddol eraill yn y Senedd ynglŷn â ble y gellid dyrannu'r adnodd hwn.[4]

**4.** Mae cael swm sylweddol o gyllideb heb ei ddyrannu ar y cam hwn o'r broses gyllidebol wedi gwneud gwaith craffu'n anoddach. Rydym yn nodi'r pwysau chwyddiant sylweddol sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus, ac nad yw'r gyllideb ddrafft bresennol yn bodloni'r pwysau hyn. Gallai pwysau chwyddiannol o'r fath olygu toriadau mewn termau real i lawer o wasanaethau a sectorau pwysig. Mae gwneud penderfyniadau'n hwyr yn y broses o bennu'r gyllideb hefyd yn heriol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus hanfodol eraill, yn enwedig awdurdodau lleol.

**5.** Ar ôl i ni gwblhau ein gwaith craffu ar y gyllideb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dod i gytundeb cyllideb gyda Phlaid Cymru. Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys tair elfen:

- £112.8 miliwn yn ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn golygu y bydd pob awdurdod lleol yn derbyn cynnydd cyllid uwchlaw 4 y cant.
- £180 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- £120 miliwn o gyllid cyfalaf i'r llywodraeth nesaf ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai i'w ddyrannu.[5]

[4] Llywodraeth Cymru, Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27, Rhagair, Hydref 2025
[5] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, Cytundeb Cyllideb, 9 Rhagfyr 2025

## Ein gwaith craffu

**6.** Ar gyfer ein gwaith craffu ein hunain, rydym wedi defnyddio'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid, yn enwedig ei waith ymgysylltu â dinasyddion[6] a'i ymgynghoriad ysgrifenedig.[7]

**7.** Cyn ein sesiynau craffu llafar, gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at feysydd o ddiddordeb.[8] Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am yr ymatebion manwl.[9]

**8.** Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft amlinellol, gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Plant.[10] Roedd gennym ddiddordeb yn hyn oherwydd bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi y byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro gwariant a mesur canlyniadau gofal iechyd. Daeth ymateb i law cyn ein sesiwn dystiolaeth.[11]

**9.** Clywsom dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 19 Tachwedd 2025. Clywsom dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ar 27 Tachwedd 2025.

**10.** Hefyd, gwnaethom graffu ar Medr yng nghyd-destun y gyllideb am y tro cyntaf. Gwnaethom ysgrifennu atynt cyn y sesiwn[12], a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2025. Gwnaethom benderfynu cynnwys Medr fel rhan o'n gwaith craffu ar y

---

[6] Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, Gorffennaf 2025

[7] Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Hydref 2025

[8] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd; y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 23 Gorffennaf 2025; a Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 23 Gorffennaf 2025

[9] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 19 Tachwedd 2025; a Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG), 27 Tachwedd 2025

[10] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Plant a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026/27, 28 Hydref 2025

[11] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Tachwedd 2025

[12] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brif Weithredwr Medr, Craffu ar egwyddorion cyllido Medr ar gyfer 2026-27, 22 Medi 2025

gyllideb, oherwydd mae cyfran sylweddol o wariant addysg Llywodraeth Cymru bellach wedi'i ddirprwyo i Medr.

**11.** Eleni, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ein hadroddiad ar ein canfyddiadau, yn hytrach na darparu naratif manwl ar y gyllideb, a'r dystiolaeth a glywsom. Mae manylion llawn y ddau eisoes yn y parth cyhoeddus.

# 2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

**12.** Drwy gydol y gwaith craffu ar y gyllideb yn y Senedd hon, rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad annibynnol o'r Effaith ar Hawliau Plant ("CRIA") ar y gyllideb ddrafft. Roedd hyn yn adeiladu ar argymhellion tebyg a wnaed gan ein pwyllgorau blaenorol gyda'r nod o wella tryloywder ynghylch effaith penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru ar blant. Cafodd pob un eu gwrthod.

**13.** Y llynedd, gwnaethom newid ein dull gweithredu ychydig, gan gydnabod y byddai galwad am CRIA ar y gyllideb gyfan yn cael ei gwrthod eto. Yn hytrach, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn treialu cyhoeddi CRIA ar ddyraniadau cyllideb y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ond gwrthodwyd hyd yn oed hyn.

**14.** Wrth wrthod yr argymhellion ailadroddus hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at ei Hasesiad Effaith Integredig Strategol ("AEIS"). Dywedodd fod hyn yn galluogi dull mwy cyfannol o ystyried effaith y Gyllideb Ddrafft ar wahanol grwpiau o bobl. Mae'r farn hon wedi'i hailddatgan yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru eleni.[13]

**15.** Rydym wedi gwneud yr argymhellion hyn yn gyson oherwydd ei bod yn parhau i fod yn aneglur sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau a nodir yn Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP").[14] Mae'r diffyg eglurder hwn wedi parhau i fod yn wir o ran y gwaith craffu ar y gyllideb eleni.

**16.** Mae mwyafrif y Pwyllgor yn parhau i gredu y dylid cwblhau a chyhoeddi CRIA ar wahân fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Fel y gwnaethom amlygu yn adroddiad y llynedd, deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ei hun sy'n gosod

[13] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol, adran 2, 19 Tachwedd 2025
[14] Mae'r Erthygl hon yn dweud y dylai gwledydd ddefnyddio hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael ganddynt i weithredu hawliau plant.

dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud penderfyniadau. Hefyd, Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru ei hun sy'n gwneud y CRIA yn offeryn o ddewis i ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd sylw dyladwy.

**17.** Mae penderfyniadau cyllidebol yn cael effaith sylweddol a gwirioneddol ar fywydau plant, eu hawliau a'u llesiant. Maent yn cael effeithiau tymor byr a hirdymor, nawr ac yn y dyfodol. Byddai CRIA sy'n llunio ac yn llywio penderfyniadau cyllidebol yn rhoi sicrwydd inni fod dull ataliol ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y penderfyniadau pwysig hyn. Nodwn fod Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi Asesiad Effaith ar Hawliau a Llesiant Plant ar gyfer ei rownd gyllidebol ddiwethaf.[15]

**18.** Rydym yn cydnabod bod CRIA yn canolbwyntio'n unig ar blant a phobl ifanc. Nid ydym yn gwneud sylwadau ar effeithiolrwydd yr AEIS i edrych ar effaith y gyllideb ar wahanol grwpiau. Ond gallwn ddweud nad yw'r AEIS yn dangos cydymffurfiaeth i ni â dyletswydd sylw dyladwy CCUHP, gan ei fod yn rhoi ychydig iawn o sylw i blant a phobl ifanc.

**19.** Nid yw’r AEIS Dros Dro yn cyfeirio llawer at blant a phobl ifanc, a hawliau plant. Mae'n nodi y bydd "dadansoddiad wedi'i dargedu" pellach ar nifer o wahanol feysydd, gan gynnwys hawliau plant. Bydd y dadansoddiad hwn yn “bwydo i mewn i’r cyngor i holl Ysgrifenyddion y Cabinet”. Mae'n nodi, yn ogystal â hysbysu Ysgrifenyddion Cabinet unigol, y bydd y Cabinet llawn hefyd yn "ystyried canlyniad yr asesiad effaith llawn ar y cyd wrth drafod pecyn y Gyllideb Derfynol cyn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2026."[16] Nid yw'n glir i ba raddau y bydd y dadansoddiad hwnnw'n cael ei rannu gyda'r Senedd neu'n ehangach a pham nad yw wedi'i gynhyrchu cyn penderfyniadau ar ddyraniadau ac i lywio gwaith craffu ar y penderfyniadau hynny. Mae'n bwysig bod hyn ar gael i'r Senedd i lywio ei hystyriaeth ynghylch a ddylid pasio'r gyllideb derfynol.

**Recommendation 1.** Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu gyda'r Senedd fel mater o flaenoriaeth ganlyniadau'r dadansoddiad effaith pellach sy'n cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol. Dylid darparu hyn fan bellaf cyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol.

[15] Llywodraeth yr Alban, Cyllideb yr Alban 2025-26: Asesiad Effaith ar Hawliau a Llesiant Plant, Rhagfyr 2024
[16] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol, Asesiad Interim, Camau Nesaf, Tachwedd 2025

**20.** Rydym yn dychwelyd i alw am gynnal CRIA ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27. Bydd hwn yn fater i bwy bynnag fydd yn ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru. Credwn ein bod ni, ynghyd ag eraill, wedi cyflwyno achos clir a chadarn yn gyson ers dros ddegawd dros yr angen i gynhyrchu a chyhoeddi CRIA ar y Gyllideb Ddrafft.

**21.** Byddwn yn cyflwyno'r achos hwn eto yn ein hadroddiad Gwaddol, ac yn tynnu sylw at y ffaith y dylai ein Pwyllgor olynol barhau i alw am y ffordd syml hon o gyflawni gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ei hun. Rydym yn gobeithio na fydd yn rhaid i'n Pwyllgor olynol wneud argymhelliad tebyg mewn unrhyw adroddiad cyllideb yn y dyfodol, ond rydym yn canmol Llywodraeth Cymru am gyhoeddi CRIA o safon, sydd wedi llywio'r broses o wneud penderfyniadau mewn ffordd ystyrlon.

**Recommendation 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynhyrchu a chyhoeddi Asesiad annibynnol o'r Effaith ar Hawliau Plant o'i Chyllideb Ddrafft 2027-28 i ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, fel y nodir yng Nghynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru ei hun.

# 3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**22.** Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026–27 yn dyrannu cyfanswm refeniw o £12.748 biliwn i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynrychioli 55 y cant o gyfanswm y gyllideb adnoddau. O hyn, mae £11.865 biliwn (neu 93 y cant o'r MEG) wedi'i ddyrannu ar gyfer 'Darparu Gwasanaethau Craidd y GIG'.

**23.** Er bod rhai Llinellau Gwariant Cyllideb yn benodol ar gyfer plant yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, daw mwyafrif y gwariant cyhoeddus ar ofal cymdeithasol a diogelu plant o'r Grant Cymorth Refeniw, sydd wedi'i leoli yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidogion dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd â'r cyfrifoldeb polisi ar gyfer gofal cymdeithasol a diogelu plant. Gall hyn wneud craffu yn anodd.

**24.** Yn ystod ein gwaith craffu llafar ar y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gwnaethom ymdrin ag amrywiaeth o feysydd polisi gwahanol gan gynnwys:

- Y gweithlu iechyd plant;
- Tlodi plant a gofal plant;

- Gordewdra ymhlith plant;
- Iechyd meddwl plant;
- Iechyd y geg ymhlith plant;
- Gwasanaethau plant awdurdodau lleol;
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol;
- Amseroedd aros pediatrig; a
- Datganiad ansawdd ar iechyd plant.
- Trawsnewid systemau

**25.** Mae polisi a'r gyllideb yn anwahanadwy. Ond gall fod yn anodd deall penderfyniadau cyllidebol a sut maent yn flaenoriaethau polisi o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ddadansoddi. Mae hon yn her barhaus i bwyllgorau'r Senedd.

**26.** Fodd bynnag, ar gyfer iechyd plant, mae'n dod yn anoddach fyth heb linellau cyllideb pwrpasol. Rydym yn cael trafferth asesu a yw plant a phobl ifanc yn cael cyfran deg o fuddsoddiad iechyd, yn ogystal ag olrhain cynnydd a gwerthuso sut mae penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn anodd iawn cysylltu gwariant â chanlyniadau. Mae hyn yn cael ei waethygu gyda'r diffyg CRIA. Felly, hoffem gael mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am yr hyn y mae am ei weld yn cael ei gyflawni ar gyfer y meysydd penodol a amlygwyd gennym yn ein cwestiynau.

**27.** Yn aml mewn trafodaethau ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru gall fod amharodrwydd i fod yn agored ynglŷn â'r cyfaddawdau cyllidebol. Gwnaethom gyferbynnu hyn â rhai o'r trafodaethau sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol. Yn aml, mewn awdurdodau lleol, mae penderfyniad i ariannu gwasanaeth yn cael eu trafod a'u gwneud yng nghyd-destun yr effaith ddilynol ar wasanaethau eraill. Er enghraifft "mae ariannu gwasanaeth x yn golygu na allwn ariannu gwasanaeth y". Nid yw hyn yn nodwedd o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, ond dylai fod.

**28.** Un o'r meysydd a archwiliwyd gennym oedd sut mae perfformiad ar iechyd plant yn cael ei reoli a'i fesur. Gwyddom fod y GIG yn mesur gweithgarwch yn fanwl, ond a yw'r pethau cywir yn cael eu mesur? A oes gennym ddigon o

wybodaeth am berfformiad ar ganlyniadau yn ogystal â gweithgarwch? Roeddem yn teimlo y dylid darparu mwy o wybodaeth am y metrigau penodol sy'n cael eu defnyddio i ddwyn Byrddau Iechyd i gyfrif am gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Recommendation 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mesurau allweddol sy'n dangos orau y gwelliant mewn iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Dylai'r dangosyddion hyn ddod ynghyd ag esboniad o sut maent yn llywio penderfyniadau cyllidebol a sut maent yn sicrhau bod canlyniadau, yn hytrach na gweithgareddau yn unig, yn cael eu rheoli a'u cyflawni'n effeithiol.

**29.** Mae'n parhau i fod yn aneglur i ni beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd plant, ar wahân i ostyngiad mewn amseroedd aros. Hoffem weld "llinyn aur" cliriach gan Lywodraeth Cymru sy'n dechrau gyda blaenoriaethau polisi iechyd plant, a'r galw am wasanaethau, gan gysylltu â dyraniad adnoddau sy'n bodloni'r rhain, a fframwaith rheoli perfformiad clir lle gellir monitro cynnydd yn effeithiol.

**Recommendation 4.** Cyn y bleidlais ar y Gyllideb Derfynol, bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y dyraniadau cyllideb yn cyflawni ei hamcanion polisi yn benodol mewn perthynas â:

- Diogelu plant a'r gweithlu gofal cymdeithasol statudol plant;
- Cefnogi awdurdodau lleol gyda chostau lleoli cynyddol cyn i'r gyfraith ar gyfyngu elw o ofal plant ddod i rym yn llawn;
- Ei hymrwymiad i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed, yn hytrach na'r 66 y cant presennol;
- Amseroedd aros pediatrig;
- Datblygu gweithlu iechyd plant cynaliadwy;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a chymorth iechyd meddwl ehangach i blant a phobl ifanc;
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol ac yn benodol gwaith i leihau'r amseroedd aros am asesiad.
- Y Cynllun Gwên.

Dylai hyn hefyd gynnwys gwybodaeth am sut y byddant yn monitro canlyniadau'r gwariant hwn ac yn asesu a yw'n cyflawni bwriad y polisi.

**30.** Yn ystod gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, pan oeddem yn archwilio tryloywder gwariant ar blant, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol sylw at ddatblygu Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Plant a phenodi arweinydd clinigol ar gyfer iechyd plant. Ym mis Chwefror 2025, nododd y byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn digwydd dros yr haf, gyda'r datganiad ei hun yn cael ei gyhoeddi "erbyn diwedd 2025."[17]

**31.** Cyn y cylch craffu ar y gyllideb hon, gwnaethom ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn.[18] Yn ei ymateb, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol y bydd y Datganiad Ansawdd "yn nodi ein disgwyliadau clir i fyrddau iechyd ddarparu gwasanaethau iechyd teg, effeithiol ac o ansawdd uchel i blant yng Nghymru."[19]

**32.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar, gwnaethom archwilio hyn ymhellach. Dywedwyd wrthym y byddai'r Datganiad Ansawdd yn cael ei gyhoeddi erbyn Gwanwyn 2026. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm dros yr amserlen hon oedd oherwydd yr angen i ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid. Er ein bod yn nodi ein bod wedi cael gwybod yn flaenorol y byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn digwydd dros yr haf.[20] Mewn gohebiaeth ddilynol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei fod yn rhagweld y byddai'n cael ei gyhoeddi yn ystod mis Mawrth 2026.[21]

**33.** Mae'n siomedig nad oedd y Cynllun Ansawdd yn barod cyn y gwaith craffu ar y gyllideb. Byddai wedi llywio ein gwaith craffu, ac wedi rhoi mwy o eglurder inni ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd plant. Mae hefyd yn aneglur i ni pam y bu llithriant pan oedd y llythyr ym mis Chwefror eisoes wedi nodi'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

---

[17] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 3 Chwefror 2025
[18] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Plant a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026/27, 28 Hydref 2025
[19] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Tachwedd 2025
[20] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 113
[21] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Rhagfyr 2025

**34.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn gyson ynglŷn â'r angen i drawsnewid y gwasanaeth iechyd yn fwy. Tynnodd sylw at effaith y Rhwydwaith Iechyd Plant, sydd 'wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran amseroedd aros pediatrig'.[22] Rydym yn falch o glywed am yr enghraifft hon. Ond rydym eisiau mwy o fanylion ynghylch sut mae gwasanaethau iechyd plant yn cael eu blaenoriaethu o fewn y rhaglen drawsnewid ehangach. Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, rydym am wybod pa feysydd sydd angen ailgynllunio gwasanaethau, a pha rai sydd angen buddsoddiad wedi'i dargedu i gyflawni trawsnewidiad. Rydym yn gwerthfawrogi y gallant yn aml fynd law yn llaw, ond weithiau nid yw gwella gwasanaethau yn ymwneud â mwy o arian.

**35.** Felly, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa wasanaethau iechyd plant y maent yn credu sydd angen trawsnewid gwasanaethau i ddatgloi gwasanaethau gwell, creu mwy o effeithlonrwydd, lleihau amseroedd aros a chostau, a gwella canlyniadau. Rydym hefyd eisiau mwy o wybodaeth am ba feysydd gwasanaeth iechyd plant sydd angen buddsoddiad i gefnogi trawsnewid gwasanaethau.

**Recommendation 5.** Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r meysydd o fewn Iechyd Plant lle mae angen trawsnewid gwasanaethau i wella ansawdd gwasanaethau, lleihau amseroedd aros, creu arbedion effeithlonrwydd o ran gwasanaethau a gwella canlyniadau. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â rhaglen drawsnewid ehangach y GIG.

**Recommendation 6.** Wrth ddarparu'r wybodaeth a amlinellir yn Recommendation 5, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ac yn gryno'r meysydd gwasanaeth sydd angen buddsoddiad ariannol ychwanegol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys manylion lefel y buddsoddiad ariannol sydd ei angen, a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyflawni sefyllfa ariannu gynaliadwy. Wrth wneud hyn, hoffem gael gwybodaeth glir am yr effaith ar blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at y gwasanaethau hyn neu sy'n ceisio cael mynediad atynt, a sut y bydd canlyniadau'n cael eu mesur.

**36.** Rydym yn gwybod bod rhan allweddol o drawsnewid yn y gwasanaethau iechyd yn ymwneud â chymorth ADY. Dros gyfnod y Senedd hon, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol yn y maes hwn. Mae ein barn a'n pryderon ynghylch gweithredu'r diwygiadau ADY wedi'u nodi'n glir yn ein gweithrediad o'r

[22] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

diwygiadau addysg[23], a mynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gwaith gofal plant.[24]

**37.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthym ei fod i fod i gyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i drafod y rhyng-gysylltiad rhwng iechyd ac addysg.[25] Rydym yn cydnabod bod rhai o'r newidiadau sydd eu hangen yn llawer ehangach na'r gyllideb, ac yn ymwneud â newidiadau polisi a diwylliannol. Ond, mae'r gyllideb yn dal i fod yn ddarn pwysig o'r jig-so. Felly, hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r trafodaethau hyn.

**Recommendation 7.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r cyfarfod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y rhyng-gysylltiad rhwng iechyd ac addysg a chymorth ar gyfer ADY. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys gwybodaeth am unrhyw un o'r materion cyllidebol, polisi neu ddiwylliannol sy'n cael sylw ar hyn o bryd o ganlyniad i'r trafodaethau.

# 4. Addysg

**38.** Mae'r MEG Addysg yn cynnwys £2.119 biliwn o gyllid adnoddau a phan gaiff adnoddau anghyllidol (cyllid benthyciadau myfyrwyr yn bennaf) eu diystyru, mae'r gyllideb hon yn dod i £1.852 biliwn. Mae'n cynnwys £380 miliwn o gyllid cyfalaf. Mae tua dwy ran o dair o'r cyllid hwn ar gyfer addysg ôl-16, a thraean ar gyfer addysg cyn-16.

**39.** Nid yw cyllid craidd ar gyfer ysgolion yn y gyllideb Addysg, ond yn hytrach yn y gyllideb Llywodraeth Leol. Mae hyn oherwydd bod cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion yn cael ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo o fewn y Setliad Llywodraeth Leol. Daw cyllid craidd ar gyfer sectorau addysg bellach ac uwch o'r gyllideb addysg, er bod llawer o'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu drwy Medr. Mae gan Medr gyllideb ddangosol o £1.005 biliwn (cyllid adnoddau a chyfalaf).

[23] Tudalen we'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg [fel ar 4 Rhagfyr 2025]
[24] Tudalen we'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal i addysg a gofal plant? [fel ar 4 Rhagfyr 2025]
[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 166

**40.** Yn ystod ein sesiynau craffu llafar gyda Medr, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, fe wnaethom ymdrin â'r meysydd polisi canlynol:

- Cydweithio rhwng darparwyr;
- Gradd-brentisiaethau;
- Cymhwystra ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim;
- Heriau ariannol sy'n wynebu'r sector addysg uwch;
- Cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog;
- Pwysau chwyddiant;
- Prentisiaethau Iau;
- Cyllid Medr;
- Pwysau ar gyllidebau craidd ysgolion;
- Cronfeydd wrth gefn ysgolion;
- Grant Adnewyddu a Chynnal a Chadw Cyfalaf;
- Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu;
- Taith;
- Academi Seren; ac
- Addysg Cyfrwng Cymraeg.

**41.** Mae'r pwysau chwyddiant y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn eu hwynebu yn real iawn. Nid yw'r gyllideb bresennol yn ariannu'r pwysau hyn yn llawn, ac mae'n gadael y ddau gyda rhai penderfyniadau anodd iawn i'w gwneud.

**42.** Roeddem yn gwerthfawrogi datganiadau gonest iawn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, a'i galwadau am gyllid ychwanegol i fynd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol.[26] Bydd

[26] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

canlyniadau sylweddol i awdurdodau lleol ac ysgolion os na fyddant yn cael digon o gyllid.

**43.** Efallai nad yw'n syndod ein bod yn galw am gyllid teg i ysgolion. Rydym yn adleisio datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y dylid blaenoriaethu cyllid craidd ar gyfer ysgolion yn eang.[27] Rydym yn gobeithio, pan fydd y Gyllideb Derfynol yn cael ei chyhoeddi, fod digon o gyllid yn y setliad llywodraeth leol y gall awdurdodau lleol wedyn ei gyfeirio'n rhannol at ysgolion.

**Recommendation 8.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu cyfeirio at awdurdodau lleol, a chefnogi awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gallu cyfeirio rhywfaint o'r cyllid ychwanegol hwn at ysgolion.

**44.** Nid yw'n glir o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft faint o'r cyllid ychwanegol a dderbyniodd Cymru yn dilyn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ym mis Mehefin sydd wedi'i ddyrannu i addysg – boed yn y MEG Addysg neu drwy'r Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion. Rydym yn gwerthfawrogi mai mater i Lywodraeth Cymru yw penderfyniadau ynghylch sut mae cyllid canlyniadol yn cael ei ddyrannu, ac na ddylid ei wario'n awtomatig yn yr un modd. Fodd bynnag, hoffem gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch a yw'r symiau canlyniadol sy'n deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU wedi'u gwario ar y materion yr oeddent yn ganlyniadol iddynt.

**45.** Yn yr un modd, yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn cael £508 miliwn mewn cyllid canlyniadol adnoddau a chyfalaf. Mae'r cyllid hwn ar gyfer cyfnod llawn yr Adolygiad Gwariant, ac nid dim ond ar gyfer 2026-27.[28] Unwaith eto, byddai mwy o eglurder yn ddefnyddiol ynghylch y meysydd polisi y mae cyllid canlyniadol yn deillio ohonynt a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio hwn yng Nghyllideb Derfynol 2026-27.

**46.** Mae rhai rhanddeiliaid addysg wedi nodi bod cyfran o'r cyllid canlyniadol o Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn gynharach eleni a'i Chyllideb Hydref ddiweddar yn ganlyniad i gynnydd mewn gwariant addysg yn Lloegr. Maen nhw'n galw am i'r cyllid sy'n deillio o hyn gael ei gyfeirio at awdurdodau lleol ac ysgolion.

**47.** Credwn y dylai fod llinell welediad gliriach rhwng swm y cyllid canlyniadol a ble mae wedi'i ddyrannu yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ac felly yn y Gyllideb Derfynol. Yn yr achosion hynny lle mae'n cael ei ddyrannu i awdurdodau

[27] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 35
[28] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Gyllideb Hydref y DU 2025, 26 Tachwedd 2025

lleol, pa fwriad sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwariant hwnnw, a sut mae wedyn yn cael ei wario mewn awdurdodau lleol. Os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfeirio rhywfaint o'r cyllid canlyniadol at ysgolion, rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei gyfeirio at y diben hwn.

**Recommendation 9.** Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol, dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion yr holl gyllid canlyniadol sy'n deillio o Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ym mis Mehefin a Chyllideb yr Hydref, lle bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu, a darparu rhesymau clir dros y penderfyniadau hyn. Os yw arian yn mynd i'r Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol, dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yr hoffai weld y cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer neu o leiaf beth y mae'n cael ei ddyrannu ar ei gyfer yn dybiannol, gan barchu'r ffaith mai penderfyniadau i awdurdodau lleol yw'r rheini yn y pen draw. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd esbonio unrhyw achosion lle mae cyllid canlyniadol yn cael ei ddyrannu i feysydd gwahanol i'r rhai y mae'n ganlyniadol iddynt.

**48.** Symud ymlaen at gyllid ôl-16. Dyma oedd y flwyddyn gyntaf i ni hefyd graffu ar Medr fel rhan o'r gwaith craffu ar y gyllideb. Yn amlwg, mae'r amserlenni'n dynn iawn i Medr, o dderbyn ei ddyraniadau cyllid amlinellol gan Lywodraeth Cymru, i orfod llunio ei ddyraniadau amlinellol ei hun yn dilyn hynny. Medr sy'n gyfrifol am y swm unigol mwyaf o gyllid yn y sector cyhoeddus yng Nghymru y tu allan i'r GIG. Felly, mae'n bwysig bod gan y pwyllgorau perthnasol yn y Senedd nesaf drefniadau cadarn i graffu ar Lywodraeth Cymru a Medr. Byddwn yn myfyrio ar hyn yn ein hadroddiad gwaddol.

**49.** Yng nghyd-destun ein hadroddiad diweddar ar lwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16, roeddem yn arbennig o awyddus i weld y sylwadau a wnaed gan Medr ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ar y sector ôl-16. Mae'r nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n mynd i addysg bellach i'w gymeradwyo a'i groesawu, ond mae'n bwysig bod gan golegau'r cyllid i ymdopi â'r cynnydd hwn. Rydym yn nodi sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai wedi hoffi cydnabod y cynnydd hwn i fyfyrwyr yn y gyllideb, ond nad oedd wedi gallu gwneud hynny oherwydd ‘cyfyngiadau’r gyllideb dreigl o 2 y cant’.[29]

[29] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15

**50.** Rydym yn pryderu am y risgiau na fydd digon o gyllid i golegau ddarparu lleoedd i bob darpar fyfyriwr. Felly, byddwn yn ysgrifennu at Medr ar wahân ynglŷn â'r mater hwn.[30]

**51.** Dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch wrthym fod y model ariannu wedi'i addasu, fel y bydd £21 miliwn o gyllid yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar niferoedd gwirioneddol yn hytrach na'r dull blaenorol pan ddyrannwyd cyllid ar niferoedd myfyrwyr a ragwelwyd. Rydym yn croesawu hyn, ond mae'n bosibl bod hwn yn fater y gallai pwyllgor olynol fod eisiau cadw llygad agos arno.[31]

**52.** Mae cyllideb ddangosol Medr yn dangos bod cyllid o £1.97 miliwn ar gyfer "Diwylliant – darpariaeth conservatoires cerddoriaeth a drama seiliedig ar berfformio."[32] Darparwyd £1.97 miliwn hefyd yn ystod y flwyddyn yn 2025-26. Mae'r cyllid hwn wedi ei glustnodi. Roeddem yn chwilfrydig. Pan wnaethom ofyn am hyn, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a'r tîm economi.[33] Cyfeiriodd y Gweinidog dros Addysg Bellach ac Uwch at Adolygiad Murphy 2016 a ganfu bod cyllid ar gyfer darpariaeth conservatoire yng Nghymru yn is nag yn Lloegr. Roedd hi'n credu bod y cyllid hwn yn 'ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwnnw.'[34]

**53.** Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y Gyllideb Ddrafft, dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol fod y cyllid ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru 'er mwyn iddo allu parhau i ddarparu'r profiad o safon hwnnw i fyfyrwyr, yn enwedig yr hyfforddiant o ansawdd uchel y mae'n ei ddarparu ar gyfer creu'r celfyddydau'. [35]

**54.** Mae cefndir y penderfyniad hwn yn aneglur i ni. Mae'n ymddangos na allwn olrhain unrhyw gofnod o pryd a sut y gwnaed y penderfyniad hwn. Rydym yn ymwybodol iawn o gostau uwch cynnal rhai cyrsiau ôl-16, a'r pwysau y gall hyn ei roi ar ddarparwyr. Ond rydym yn synnu gweld un sefydliad addysg uwch yn cael ei drin yn wahanol i eraill. Rydym eisiau mwy o eglurder a thryloywder ynghylch y penderfyniad ariannu penodol hwn. Nid ydym o reidrwydd yn cwestiynu'r

[30] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brif Weithredwr Medr, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 10 Rhagfyr 2025
[31] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 216
[32] Medr, Rhagdybiaethau cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, 19 Tachwedd 2025
[33] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 96
[34] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[35] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 19 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 197

penderfyniad ei hun, ond rydym eisiau rhagor o wybodaeth ynghylch pam y gwnaed y penderfyniad hwn, pwy wnaeth y penderfyniad, pryd y gwnaed y penderfyniad, a pha ystyriaethau a roddwyd i gefnogi cyrsiau cost uchel eraill.

**55.** Nodwn mai Medr sy'n gyfrifol am gyllid yn y sector ôl-16, felly rydym yn synnu y byddai cyllid penodol ar gyfer un sefydliad yn cael ei neilltuo fel hyn gan Lywodraeth Cymru. Rydym am sicrhau nad yw annibyniaeth hyd braich Medr yn cael ei thanseilio gan y math hwn o benderfyniad.

**Recommendation 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros y cyllid o £1.97 miliwn ar gyfer darpariaeth conservatoire, gan gynnwys a gafodd y penderfyniad ei wneud gan Lywodraeth Cymru neu Medr, beth fydd y cyllid yn ei gyflawni a sut mae hyn yn cysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.